**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA235
Ein cyf/Our ref: LF/MD/0466/13

David Melding, AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

24 Mai 2013

Annwyl David

**CLA235 – Rheoliadau Bwyd (Diwygio Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2013**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 12 Mai 2013, yn tynnu fy sylw at bryderon y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am Femorandwm Esboniadol y Rheoliadau uchod. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oedd y Memorandwm Esboniadol yn egluro'n glir sut y byddai Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 yn darparu mesurau digonol i ddiogelu iechyd y cyhoedd ar ôl i Reoliadau Wyau heb eu Graddio (Hylendid) 1990, Rheoliadau Clorofform mewn Bwyd 1980 a Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd 1959 gael eu dirymu.

**Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004**
Mae Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 yn darparu ar gyfer gorfodi, ym Mhrydain Fawr, Cyfraith Bwyd Gyffredinol (Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 Senedd a Chyngor Ewrop dyddiedig 28 Ionawr 2002 ("Cyfraith Bwyd Gyffredinol")).

Mae Erthygl 14 o Reoliad yr UE yn datgan (yn yr iaith wreiddiol):

1. *Food shall not be placed on the market if it is unsafe.*

2. *Food shall be deemed to be unsafe if it is considered to be:*
   *(a) injurious to health;*
   *(b) unfit for human consumption.*

Mae Rheoliad 10 o Reoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 yn diwygio adran 8 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i ddatgan yn adran 8(2) (yn yr iaith wreiddiol) –

*"(2) For the purposes of this Part Food fails to comply with food safety requirements if it is unsafe within the meaning of article 14 of Regulation (EC) No 178/2002 and references to food safety requirements or to food complying with such requirements shall be construed accordingly."*

O'r herwydd, mae defnyddwyr yn cael eu diogelu'n helaeth gan ddarpariaethau'r Gyfraith Bwyd Gyffredinol (Rheoliad (CE) Rhif 178/2002). Fel Rheoliad y CE, mae'n uniongyrchol

berthnasol yng nghyfraith y DU, er bod gofyn diwygio deddfwriaeth y DU i ddarparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliad.

**Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd 1959**
Roedd y Rheoliadau hyn yn seiliedig ar wyddoniaeth sydd bellach wedi dyddio ac yn gosod lefel statudol ar gyfer cyfanswm arsenig. Nid oedd y lefel hon wedi cael ei diwygio i gymryd i ystyriaeth unrhyw wyddoniaeth ddiweddarach. Cyfanswm arsenig yw swm yr holl wahanol ffurfiau cemegol hynny y gall arsenig fodoli ynddynt o fewn yr amgylchedd. Mae gwenwyndra arsenig yn dibynnu ar y ffurfiau cemegol y mae'n bodoli ynddynt. Ers cyflwyno'r Rheoliadau, dangoswyd bod ffurfiau organig o arsenig yn llai niweidiol ond y gall y ffurfiau anorganig achosi canser[1]. O ganlyniad, byddai arsenig anorganig sy'n bresennol mewn bwyd ar lefel uwch na'r lefel statudol a bennwyd yn y Rheoliadau Arsenig yn cael ei ystyried i fod yn 'anniogel' o dan y Gyfraith Bwyd Gyffredinol (gweler uchod). Ar hyn o bryd, os bydd digwyddiad yn codi sy'n ymwneud ag arsenig mewn bwyd, cynhelir asesiad risg a chaiff unrhyw gamau gweithredu eu cymryd o dan y Rheoliadau Bwyd Cyffredinol. O ganlyniad, nid oes angen y Rheoliadau Arsenig i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

**Rheoliadau Clorofform mewn Bwyd 1980**

Cyfyng iawn yw'r defnydd o glorofform yn y diwydiant bwyd erbyn hyn. Golyga hyn ei bod yn annhebygol iawn y bydd unrhyw achosion o halogi. Adeg creu'r Rheoliadau hyn, roedd angen gwaharddiad absoliwt ar glorofform gan nad oedd modd profi am lefelau isel iawn o glorofform fel y gellir gwneud heddiw. Nid oes angen pennu uchafswm ar y lefel datgelu bellach, gan fod y technegau dadansoddi pwerus cyfoes yn gallu dod o hyd i lefelau sydd mor isel nad oes unrhyw oblygiadau diogelwch yn perthyn iddynt.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn fy nghynghori bod Rheoliad Cyfraith Bwyd Cyffredinol (CE) Rhif 178/2002 a Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 yn darparu lefel gyfwerth o ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r Rheoliadau hyn yn atal rhag gwerthu bwyd sy'n cynnwys clorofform ar lefel sy'n niweidiol i iechyd.

**Rheoliadau Wyau Heb eu Graddio (Hylendid) 1990**

Cafodd Rheoliadau Wyau heb eu Graddio (Hylendid) 1990 eu cyflwyno i atal cynhyrchwyr rhag gwerthu wyau wedi'u cracio ar eu ffermydd eu hunain, mewn marchnadoedd cyhoeddus lleol neu o ddrws i ddrws oherwydd y risg posibl i ddiogelwch bwyd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn fy nghynghori bod y Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol uchod yn darparu lefel gyfwerth o ddiogelwch o ran iechyd y cyhoedd. Mae'r Rheoliadau hyn yn atal rhag gwerthu neu gyflenwi bwyd anniogel.

Cafodd y ddeddfwriaeth gyfwerth yn yr Alban ei dirymu ar 1 Ionawr 2006 gan Reoliadau Hylendid Bwyd (yr Alban) 2005 ac nid yw dirymu'r ddeddfwriaeth honno wedi cael unrhyw effaith andwyol ar ddiogelu defnyddwyr.

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd wedi dirymu Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd 1959, Rheoliadau Clorofform mewn Bwyd 1980 a Rheoliadau Wyau Heb eu Graddio (Hylendid) 1990 gan na ystyrir bod eu hangen bellach er mwyn diogelu defnyddwyr o

---

[11] Safbwynt Gwyddonol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ar Arsenig mewn Bwyd (Cyfnodolyn EFSA 2009; 7(10):1351 doi:10.2903/j.efsa.1351) y gellir ei weld drwy: http://www.efsa.europa.eu/en/efsajournal/pub/1351.htm

ystyried darpariaethau eang Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Rheoliad (CE)) Rhif 178/2002 a Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol 2004.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn tawelu pryderon y Pwyllgor.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services